# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Medi 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 09.00 - 09.15 - Rhag-gyfarfod anffurfiol

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 3 Papurau i'w nodi

(09.15) (Tudalennau 1 - 5)

**Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd - 18 Awst 2016 - Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2016-17**

(Tudalennau 6 - 12)

**Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd - 16 Medi 2016 - Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

(Tudalennau 13 - 16)

## 4 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

(9.15-11.00) (Tudalennau 17 - 38)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Andrew Hewitt, Rheolwr Polisi, Llywodraeth Cymru
Gareth Mc Mahon, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), fel y'i cyflwynwyd (PDF, 831KB)
Memorandwm Esboniadol (PDF, 1.2MB)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## 6 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Ystyried y dystiolaeth

(11.00-11.10)

## 7 Y diweddaraf am weithdrefnau'r gyllideb o ystyried trethi datganoledig

(11.10-11.25) (Tudalennau 39 - 45)

Papur 1 - Y diweddaraf am weithdrefnau'r gyllideb o ystyried trethi datganoledig

## 8 Llythyr gan y Pwyllgor Busnes ynglŷn â'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi

(11.25-11.30) (Tudalennau 46 - 47)

Papur 2 - Llythyr gan y Pwyllgor Busnes ynglŷn â'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi - 14 Medi 2016

## 9 Cyflwyno Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

(11.30-12.30)

Steven O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, Swyddfa Archwilio Cymru
Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Archwilio Cymru

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2016

Amser: 09.32 - 12.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3679

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Nick Ramsay AC<br>Steffan Lewis AC<br>Mark Reckless AC<br>Eluned Morgan AC<br>Mike Hedges AC |
| Tystion: | Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc<br>Matthew Richards<br>Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru<br>Repa Antonio, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Hewitt, Llywodraeth Cymru<br>Sean Bradley, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Ystyried cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag Adran 7, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

1.1 Cafodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol gan staff y Comisiwn mewn perthynas ag adran 7 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Ystyried Adran 7, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

4.1 Trafododd y Pwyllgor y sefyllfa o ran talu cydnabyddiaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru a nodwyd bod y Prif Weithredwr a'r Clerc wedi ymgynghori â'r Prif Weinidog. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai trefniadau talu cydnabyddiaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru aros fel y'u nodir yn ei amodau a thelerau cyfredol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Briffio ar y Bil Treth Trafodion Tir

6.1 Cafodd y Pwyllgor ei friffio gan: Georgina Haarhoff – Pennaeth Polisi Trethi a Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru; Repa Antonio – Rheolwr Prosiect Treth Trafodiadau Tir, Llywodraeth Cymru; Andrew Hewitt – Rheolwr Polisi Treth Trafodiadau Tir, Llywodraeth Cymru; a Sean Bradley – Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru; ar y Bil Treth Trafodiadau Tir.

## 7 Ystyried y dull o graffu ar y gyllideb ddrafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor, a gynhelir yn ystod toriad yr haf.

## 8 Ystyried rhaglen waith dros dro tymor yr hydref

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei raglen waith ar gyfer tymor yr hydref.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi ei raglen waith ar ei wefan.

## 9 Ystyried llythyr drafft i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Cymru

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Y Pierhead, Pierhead Street, CF99 1NA**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Medi 2016

Amser: 08.35 - 15.50

# Cyfarfod anffurfiol

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Steffan Lewis AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Dull o graffu

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn ystod Cyfnod

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MAIP/CD/6191/16

Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

18 Awst 2016

Annwyl Simon,

Diolch ichi am waith craffu'ch Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 a'r adroddiad a ddaeth yn ei sgil.

Amgaeaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi yn y dyfodol.

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid : Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2016-17**

**10 Awst 2016**

---

Y Gyllideb Atodol hon oedd y cyfle cyntaf i ddiwygio cynlluniau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad blaenorol ym mis Mawrth.

Prif ddiben y gyllideb hon oedd ail-alinio'r cynlluniau hynny ym mhortffolios y llywodraeth newydd. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd y Cabinet yn y dyfodol a rheolaeth effeithiol ar Bloc Cymru. Effaith net y newidiadau hyn ar y gyllideb gyffredinol oedd dim.

Roedd y gyllideb hefyd yn caniatáu inni adlewyrchu nifer bach o addasiadau a ddeilliodd o benderfyniadau a wnaed yn y weinyddiaeth flaenorol.

Hon hefyd oedd cyllideb gyntaf y llywodraeth newydd i'r Pwyllgor hwn graffu arni. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am y gwaith a wnaed ac edrychaf ymlaen at weithio mewn partneriaeth â'r aelodau yn y dyfodol.

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fanteisio ar gyfleoedd i leihau'r gost o gynnal etholiadau i drethdalwyr.

**Ymateb:** derbyn
Rydym bob amser yn edrych i leihau costau ac mae ein canllawiau i swyddogion canlyniadau yn hybu hyn.

Mae Swyddogion Canlyniadau'n gweithredu yn annibynnol wrth gynnal etholiadau. Pwysleisiodd y Canllawiau sydd ynghlwm wrth Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ffioedd a Thaliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016, fod rhaid i'r holl wariant gael ei ddefnyddio i gynnal yr etholiad yn effeithlon ac yn effeithiol. Anogir swyddogion i geisio gwerth am arian ac arbedion cost wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau etholiadol. Gellir defnyddio contractau a fframweithiau awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau etholiadol ar yr amod eu bod yn rhoi gwerth am arian.

Mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gyflwyno eu cyfrifon cyn pen chwe mis o ddyddiad yr etholiad. Yn wahanol i Lywodraeth y DU sy'n archwilio cyfran o gyfrifon Swyddogion Canlyniadau, caiff yr holl gyfrifon a gyflwynir i Lywodraeth Cymru eu harchwilio. Caiff data am etholiadau hanesyddol ei defnyddio i greu darlun o wariant ac fe'i defnyddir i fonitro amrywiadau.

Mae Bil Cymru drafft yn cynnig datganoli pwerau dros rai swyddogaethau etholiadol i Lywodraeth Cymru. Rwyf yn cynnal gweithdy yn yr hydref i edrych

ar sut y gellid defnyddio’r pwerau hyn i foderneiddio'r system etholiadol ac a oes cyfleoedd i leihau costau yn y tymor hwy.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o dystiolaeth sy'n nodi’r rhesymeg y tu ôl i ddyraniadau gyllideb yn y dyfodol, fel y cynllun rhyddhad ardrethi busnes, gan gynnwys manylion am yr effaith economaidd a ragwelir. Bydd hyn yn helpu Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru i graffu ar raglenni o ran eu llwyddiant a’u gwerth am arian.**

**Ymateb:** derbyn

Rydym yn cymryd i ystyriaeth amrywiaeth o dystiolaeth i lywio’r penderfyniadau a wnawn ynghylch dyrannu ein cyllidebau. Mae'n hanfodol ein bod yn glir ynghylch beth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud, a pham, ac y gall pobl gael gafael ar yr wybodaeth sydd wedi cael ei hystyried. Dyna pam yr ydym yn cyhoeddi’r ystadegau, yr ymchwil, y gwerthuso a’r dystiolaeth arall sydd wedi bod yn berthnasol i’n penderfyniadau.

Yn 2011-12, Cymru oedd gweinyddiaeth gyntaf y DU i gyhoeddi asesiad o effaith cynlluniau gwario. Ers hynny, rydym wedi parhau i edrych am gyfleoedd i wella ein dull gweithredu ac rydym wedi cymryd camau mewn cyllidebau dilynol i gynyddu cwmpas y materion a gynhwysir a’r dadansoddiad ategol. Mae'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud yn adlewyrchu argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Weithdrefnau Arferion Gorau ym maes Cyllidebau a Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE).

Adeg y Gyllideb Ddrafft, rydym yn cyhoeddi naratif sy'n cynnwys asesiad o’r dystiolaeth orau sydd ar gael sydd wedi llywio ein cynlluniau gwariant ar y lefel strategol. Yn y naratif, rydym yn tynnu ar dystiolaeth a ddarparwyd yn yr Asesiad Integredig Strategol o Effaith ac yn ei hintegreiddio â data ar

dueddiadau a gwerthusiadau perthnasol yn y dyfodol. Caiff Asesiad Integredig Strategol llawn o Effaith ei gyhoeddi hefyd ochr yn ochr â naratif y Gyllideb Ddrafft. Cyhoeddir y dystiolaeth sy'n llywio cynlluniau gwariant manwl o fewn portffolios yn y papurau tystiolaeth y mae Ysgrifenyddion y Cabinet yn eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid i gefnogi gwaith craffu ar gynlluniau.

Rydym yn cael ein harwain gan set o egwyddorion lefel uchel i ysgogi ymchwil a gwerthuso, gan gynnwys yr asesiad o werth am arian. Yn unol â'n hegwyddorion, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd rydym yn gwerthuso ein polisïau a'n rhaglenni fel y gallwn dynnu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio ein penderfyniadau ar y gyllideb.

**Goblygiadau ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwybodaeth i sicrhau ei bod yn bosibl olrhain dyraniadau i adrannau a phrosiectau mawr yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Dylai hyn gynnwys galluogi cymariaethau i gael eu gwneud pan fydd portffolios Ysgrifenyddion Cabinet yn newid.

**Ymateb:** Derbyn

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw. Ein hymagwedd at y gyllideb hon oedd cyfyngu ar nifer y newidiadau. Roeddem am ddangos yn glir sut y lluniwyd cyllidebau'r portffolios newydd o gynlluniau blaenorol a chredaf inni lwyddo yn hynny o beth.

Yn y dogfennau cyhoeddedig cynhwyswyd tablau a ddangosodd symud arian o'r cynlluniau blaenorol i'r portffolios newydd.

Byddwn yn parhau i gyflwyno dogfennau'r gyllideb mewn fformat syml sy'n hwyluso dealltwriaeth o'r niferoedd. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu

disgrifiad naratif o'r newidiadau allweddol i ffigurau gan gynnwys unrhyw ddyraniadau sylweddol o gronfeydd wrth gefn.

Pan fydd newid yn y portffolios byddwn yn sicrhau y caiff yr hen a'r newydd eu cysoni.

**Goblygiadau ariannol:** dim.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywio am drafodaethau Thrysorlys y DU ar unrhyw benderfyniadau a allai arwain at newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf.

**Ymateb:** Derbyn

Ers imi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2016-17, rwyf wedi trafod fy mhryderon ynghylch goblygiadau pleidlais refferendwm yr UE ar arian cyhoeddus a chyllideb Cymru â Changhellor y Trysorlys a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Yn ei ymateb i adroddiad diweddar y Comisiwn Polisi Ariannol ar Chwyddiant, cadarnhaodd y Canghellor ei fod yn barod i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i gefnogi'r economi a hybu hyder. Aeth ymlaen i gadarnhau y bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu ei chynlluniau cyllidol yn Natganiad yr Hydref, pan fydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi cynhyrchu rhagolwg newydd.

Rwyf yn disgwyl cyfarfod â'r Prif Ysgrifennydd eto ar ddechrau'r sesiwn newydd, a byddaf yn pwyso am ymgysylltiad cynnar ac eglurder cyn Datganiad yr Hydref. Bydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau i setliad Cymru.

**Goblygiadau ariannol : Dim**

**Mark Drakeford AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AC, Llywydd

National Assembly for Wales
Elin Jones AM, Presiding Officer



Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Medi 2016

Annwyl Simon

**Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

Yn dilyn fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), a gyhoeddwyd ar 12 Medi, rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at y materion sy'n ymwneud â hawliau dynol a chaniatâd yr wyf wedi'u hystyried wrth wneud fy mhenderfyniad.

Yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 26.4, fy mhenderfyniad yw bod y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Fodd bynnag, mae mater sy'n ymwneud â chymhwysedd yn codi yn y Bil, ac rwyf o'r farn ei bod yn briodol dwyn hyn i sylw'r Pwyllgor, fel y gall yr aelodau benderfynu a ddylid archwilio'r mater ymhellach fel rhan o'r broses graffu.

**Hawliau dynol**

Er mwyn bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, rhaid i bob un o ddarpariaethau Bil fodloni'r meini prawf a nodir yn adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Un o'r meini prawf a nodir yn adran 108 yw bod yn rhaid i ddarpariaethau Bil gydymffurfio â'r hawliau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 ac a gymerir o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Mae Erthygl 1 o Brotocol 1 y Confensiwn yn un hawl o'r fath. Yn fy marn i, dylid craffu'n fanylach ar ddarpariaethau'r Bil o ran y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi (a nodir yn adran 65) yn sgil gofynion Erthygl 1 o Brotocol 1.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

Erthygl 1 o Brotocol 1

Mae Erthygl 1 o Brotocol 1 (A1P1) y Confensiwn yn diogelu mwynhad eiddo. Mae trethiant yn amddifadu rhywun o feddiant: y swm o arian sy'n ddyledus o ran treth. Fodd bynnag, mae A1P1 yn nodi'n benodol na fydd yn arwain at y canlynol -

> *"in any way impair the right of a state to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties".*

Rhaid i'r dreth fod yn gyfreithlon i'r eithriad fod yn gymwys. Ni fydd y ffaith y darperir ar gyfer y dreth yn y ddeddfwriaeth - fel y Bil - yn ddigon. Er mwyn bod yn gyfreithlon, o ran y Confensiwn, rhaid drafftio'r ddeddfwriaeth yn ddigon manwl er mwyn caniatáu i'r dinesydd asesu, gyda sicrwydd rhesymol (gan geisio cyngor os oes angen), beth sy'n rhaid iddo ei wneud i gydymffurfio; beth fydd canlyniadau peidio â chydymffurfio; ac a yw'n mynd yn groes i'w hawliau. Yn ddiweddar, mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu bod darpariaethau penodol un o Ddeddfau Senedd yr Alban y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd honno ar y sail na chawsant eu drafftio gyda'r trachywiredd gofynnol (Y Sefydliad Cristnogol ac eraill yn erbyn Yr Arglwydd Adfocad (yr Alban), Tymor y Drindod [2016] UKSC 51).

Y reol gyffredinol yn erbyn camddefnyddio'r gyfundrefn dreth (y Rheol)

Mae'r Rheol yn adran 65 o'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag osgoi treth mewn trethi datganoledig.

Bydd y Rheol yn gymwys i drefniadau osgoi treth artiffisial. Mae'r trefniadau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- os mai'r prif ddiben (neu un o'r prif ddibenion) yw cael mantais o ran treth, a
- os nad oedd ymrwymo i'r trefniant neu gyflawni'r trefniant yn ffordd resymol o weithredu, o ystyried y ddeddfwriaeth dreth berthnasol.

Mae'r Bil yn nodi'r canllawiau canlynol ar gyfer asesu a oedd camau gweithredu yn "rhesymol", ac felly a oedd trefniant treth yn "artiffisial", sef:

- a oes sylwedd economaidd neu fasnachol gwirioneddol i'r trefniant, ac
- a yw'n rhesymol tybio bod y trefniant yn arwain at swm o dreth a godir a oedd yn llai nag y byddai wedi'i ragweld gan y ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi rhywfaint o eglurder i drethdalwyr ynglŷn â sut y bydd y Rheol yn cael ei chymhwyso. Fodd bynnag, nid ydynt yn orfodol nac yn gyflawn.

Mae'r Bil hefyd yn darparu na fydd trefniant yn cyfrif fel trefniant artiffisial os yw'n unol ag 'arfer cyfredol yn gyffredinol' a dderbyniwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae hyn, yn amlwg, yn ceisio bod yn deg i drethdalwyr.

Mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â'r Rheol, Awdurdod Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am brofi bod trefniant yn artiffisial.

Ar hyn o bryd mae Deddf Cyllid 2003 yn darparu ar gyfer rheol gyffredinol yn erbyn camddefnyddio'r gyfundrefn dreth (Rheol y DU), a ddaeth i rym yn 2013. Mae'n cwmpasu, ymhlith trethi eraill, Treth Dir y Dreth Stamp, lle bydd Treth Trafodiad Tir yn ei disodli yng Nghymru. Mae Rheol y DU yn gymwys i drefniadau treth yr ystyrir eu bod yn 'camddefnyddio'. Nid yw'n gymwys i drafodiadau sy'n ymwneud â Threth Tirlenwi y DU.

Mae Deddf Cyllid yr Alban a Phwerau Treth 2014 yn darparu ar gyfer Rheol yr Alban (a ddaeth i rym yn 2015). Mae'n gymwys i drafodiadau sy'n ymwneud â thir ac adeiladau yn yr Alban, ac i drafodiadau sy'n ymwneud â Threth Dirlenwi yr Alban. Mae Rheol yr Alban yn gymwys i drefniadau treth yr ystyrir eu bod yn 'artiffisial'.

Bwriedir i Reol y DU a'r Alban ddarparu ffordd i awdurdodau treth herio ymdrechion trethdalwyr i drefnu eu materion er mwyn talu llai o dreth na fwriadwyd gan y ddeddfwriaeth berthnasol. Maent yn ceisio darparu lefel o ddiogelwch i gyllid y Wladwriaeth ar draws y trethi y mae'r Rheol yn gymwys iddi.

Mae'r Rheol a gyflwynwyd gan y Bil yn debyg i Reol yr Alban, yn yr ystyr bod y ddwy yn gymwys i drefniadau sy'n arwain at fantais o ran treth sy'n cael ei hystyried yn 'artiffisial'. I'r gwrthwyneb, mae Rheol y DU yn defnyddio'r cysyniad o drefniadau sy'n 'camddefnyddio'.

Nid yw Rheol y DU na Rheol yr Alban wedi cael eu herio yn y llysoedd.

<u>A1P1 a'r Rheol</u>

Efallai y bydd y Pwyllgor am holi a yw'r cysyniad o gamau gweithredu 'rhesymol' yn ddigon manwl er mwyn i drethdalwr reoleiddio ei ymddygiad. Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod pa mor hawdd y bydd i asesu beth sy'n 'ddilys', a'r hyn y mae'n 'rhesymol tybio' ynghylch lefel y dreth y disgwylir iddi gael ei thalu.

Mae gofyniad y Confensiwn ynghylch eglurder drafftio cyfreithiol hefyd yn berthnasol i adrannau newydd 81E-81H, y mae'r Bil yn eu cynnwys yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, ac sy'n ymwneud â'r hyn y gall Awdurdod Cyllid Cymru ei wneud wrth wrthweithio yn erbyn achosion artiffisial o osgoi talu treth. Ymddengys fod pŵer yr Awdurdod i wneud addasiadau o'r fath sy'n gyfiawn ac yn rhesymol yn ei farn ef i wrthweithio mantaisdrethiannol yn rhoi cryn ddisgresiwn i'r Awdurdod ac yn ddiffygiol o ran cywirdeb. Wedi dweud hyn, byddai sicrhau cywirdeb cyflawn, yn ymarferol, yn anodd yn y cyd-destun hwn.

Un ddadl gref o blaid cydweddoldeb y Rheol gyda'r Confensiwn yw y gall y trethdalwr herio, mewn tribiwnlys annibynnol a diduedd, unrhyw ddyfarniad gan Awdurdod Cyllid Cymru o fod yn artiffisial, a dilysrwydd unrhyw achos o wrthweithio. Mae hefyd yn hynod bwysig o ran hawliau dynol, ac yn gadarnhaol, mai'r Awdurdod sy'n gyfrifol am y prawf ar gyfer bod yn artiffisial mewn achosion o'r fath.

**<u>Cydsyniad y Frenhines/Dug Cernyw</u>**

Yn ôl adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ni chaniateir i unrhyw Fil gael ei basio heb gydsyniad Ei Mawrhydi neu Ddug Cernyw lle bo angen y cydsyniad hwnnw yn rhinwedd Rheol Sefydlog 26.67.

Mae angen cydsyniad pan fo Bil yn effeithio ar refeniw uchelfraint, preifat neu etifeddol y Frenhines neu Ddug Cernyw. (Mae hwn yn fater ar wahân i'r cwestiwn a yw Bil yn effeithio ar y Goron fel sefydliad). Nid yw'r angen am gydsyniad gan Ei Mawrhydi neu Ddug Cernyw yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol, ac felly ni ellid cyfeirio Bil at y Goruchaf Lys oherwydd diffyg y cydsyniad hwnnw; fodd bynnag, ni ellir pasio'r Bil hyd nes bod unrhyw gydsyniad angenrheidiol wedi'i ddynodi.

Mae p'un a oes angen cydsyniad ar gyfer y Bil hwn yn dibynnu ar p'un a allai trafodiad tir fel y'i diffinnir yn y Bil effeithio ar refeniw uchelfraint, preifat neu etifeddol y Frenhines neu Ddug Cernyw. Efallai y bydd y pwyllgor am archwilio gydag Ysgrifennydd y Cabinet a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad o'r fath.

Dyma grynodeb byr o'r materion. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar y rhain, neu unrhyw un o'r profion cymhwysedd eraill sy'n gymwys i'r Bil, bydd y swyddogion sy'n cefnogi eich gwaith yn fwy na pharod i helpu.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Prif Weinidog Cymru a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon